Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ragolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru

Cyflwyniad S4C
1 Tachwedd 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ragolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru

Cyflwyniad S4C
1 Tachwedd 2011

Mae S4C yn cynnig ei barn ar ddyfodol y cyfryngau yng Nghymru o dan bob un o'r themau allweddol sydd wedi eu nodi gan yr ymchwiliad.

Thema Allweddol 1 - Sefyllfa bresennol y cyfryngau yng Nghymru a sut mae technoleg newydd a datblygiadau eraill yn effeithio ar hyn, yng nghyd-destun pryderon parhaol ynglŷn â dyfodol darlledu Cymreig a'r cyfryngau print.

Flwyddyn yn ôl, roedd yna bryderon dwys am ddyfodol S4C, yn arbennig am ddyfodol parhaol cyllid ac annibyniaeth y Sianel. Mae deuddeng mis cythryblus wedi dod i ben gyda chwblhau cytundeb rhwng Ymddiriedolaeth y BBC, Awdurdod S4C ac Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r cytundeb yn gwarchod annibyniaeth olygyddol a rheoli S4C tra'n gwarchod atebolrwydd priodol i Ymddiriedolaeth y BBC am gyllid ffi'r drwydded. Er bod y cyllid atodol sydd wedi ei gytuno ar gyfer y cyfnod 2015-2017 yn heriol, mi fydd yn cynnig sefydlogrwydd i S4C a'r sector gynhyrchu yn ystod hinsawdd ariannol anodd. Fe fydd partneriaeth newydd gyda'r BBC yn cael ei datblygu er mwyn dod o hyd i a chyfleu mesurau effeithlonrwydd fel bod cymaint o arian ag y bo modd yn cael ei wario ar gynnwys rhaglenni. Bydd Awdurdod S4C yn parhau fel y corff statudol gyda chyfrifoldeb am ddarparu *remit* S4C, gyda'r aelodau yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, fydd yn cael ei gynghori gan banel a fydd yn awr yn cynnwys cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth y BBC yn ogystal â rhai o Lywodraeth y Deyrnas Unedig, S4C a Llywodraeth Cymru. Fe fydd Ymddiriedolwr y BBC dros Gymru hefyd yn aelod o'r Awdurdod.

Fe fydd y cytundeb yma a'r egwyddorion sy'n sail iddo yn darparu rhywfaint o sefydlogrwydd allweddol bwysig ynghyd â chyfle i gynllunio ymlaen llaw yn ystod cyfnod o ansicrwydd ariannol. Ar yr un pryd, mae S4C wedi bod yn llwyddiannus wrth benodi Prif Weithredwr newydd – Cymro gyda chefndir neilltuol yn y byd teledu yn rhyngwladol . Fe fydd yn ymuno ag S4C ddim hwyrach na mis Ebrill y flwyddyn nesa – yn gynt na hynny os bydd yn llwyddo i gwblhau unrhyw ymrwymiadau i'w gyflogwr presennol. Fe fydd dyfodiad Ian Jones i'r swydd ynghyd â'r symbyliad blaengar a fydd yn cael ei ddarparu gan y cytundeb newydd gyda'r BBC yn gyrru S4C ymlaen tuag at ddyfodol newydd.

Mae'r her gyllidol sy'n wynebu'r Prif Weithredwr newydd a'i dîm yn ogystal â'r sector gynhyrchu y byddan nhw'n cydweithio â nhw yn hynod o anodd. Mae'n anochel y bydd y newid o gyfundrefn gyllid oedd wedi ei seilio ar fformiwla oedd ynghlwm â chwyddiant i un sydd â gwaelodlin llawer is sydd ddim yn newid gyda chwyddiant, yn cael effaith fawr iawn ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer rhaglenni a'r gwasanaeth sy'n cynnig cefnogaeth rhaglenni oddi mewn i S4C ei hun. Er y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i leihau'r effaith ar wylwyr - e.e. drwy ganolbwyntio'r buddsoddiad ar raglenni yn ystod yr oriau brig, mae'n anochel y bydd 'na beth effaith ar wasanaethau S4C. Rhagwelir y bydd y gostyngiad yn y cyllid yn golygu y bydd tua 230 o oriau yn llai o raglenni Cymraeg yn cael eu darlledu bob blwyddyn ac y bydd cost yr awr rhaglenni gwreiddiol yn gostwng o £41k i £32k yr awr. Mae hyn yn ychwanegol at y gostyngiad yng ngwariant y rhaglenni mae'r BBC yn eu darparu i S4C o dan y gofynion statudol a'r bartneriaeth strategol o £25.1 miliwn yn 2009 i £19.4 miliwn yn 2012/13.

Mae S4C eisoes wedi cyhoeddi bod 31 o swyddi mewnol yn cael eu colli drwy ddiswyddiadau gwirfoddol, ac wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y gostyngiad yn y costau sydd ddim ynghlwm â rhaglenni ar raddfa debyg i'r gostyngiad yng nghost rhaglenni erbyn 2013/14. Mae'n werth nodi yn y cyd-destun yma i arbedion o 10% gael eu cyflawni mewn costau oedd ddim ynghlwm â rhaglenni rhwng 2006 a 2010.

Yng nghyswllt teledu, mae'r chwyldro digidol wedi gadael S4C, fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, yn wynebu sialensiau llawer mwy oherwydd y gystadleuaeth gan nifer mawr o sianeli a phlatfformau. Yn achos S4C, mae'r sialens gystadleuol yn fwy oherwydd colli rhaglenni Channel 4. Er bod hyn wedi bod yn niweidiol wrth ystyried y ffigyrau gwylio moel**,** ochr arall y geiniog ydi bod yn le ar gyfer mwy o oriau darlledu ar sianel ddigidol S4C sydd wedi golygu bod mwy o oriau darlledu ar gael; mae'r sianel wedi manteisio ar hyn er budd y gwylwyr - yn arbennig felly drwy lansio Cyw, y gwasanaeth ar gyfer plant, sydd wedi ymestyn o ran oriau. Un o'r sialensiau sy'n parhau i wynebu S4C ydi adnabod a darparu'r cymysgedd gorau posib o raglenni fydd yn llwyddo i ddiwallu anghenion yr holl ystod o siaradwyr Cymraeg ar un sianel.

Mi fydd gwasanaeth S4C yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i faterion cyhoeddus a thrafodaeth yng Nghymru. Ei gwasanaeth newyddion, sy'n cael ei darparu gan BBC Cymru, ydi'r unig raglen newyddion sy'n cyfuno straeon cenedlaethol a rhyngwladol yn y cenhedloedd datganoledig. Mae ei rhaglenni ffeithiol a materion cyfoes, sy'n tynnu ar ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys ITV Cymru, yn darparu elfen bwysig o blwraliaeth yn y cyfryngau ynghyd ag ymagwedd amrywiol.

Mae'r her ar gyfer yr iaith Gymraeg drwy gyfrwng y cyfryngau newydd yn enfawr. Mae fframweithiau newydd ar gyfer rhyngweithio, o Facebook i Linkedin, o YouTube i Twitter, wedi cynyddu'n fawr gan groesi ffiniau diwylliannol cenedlaethol a thraddodiadol. Mae cymunedau diddordeb newydd yn cael eu creu lle mae ieithoedd rhyngwladol yn cael eu defnyddio er mwyn cyrraedd cymaint o bobol ag y bo modd.

Ar yr un pryd, mae rhwydweithiau digidol yn cynnig modd i siaradwyr Cymraeg ar draws y byd ddod o hyd i gynnwys oedd cyn hynny wedi ei gyfyngu i Gymru (yn ddibynnol ar hawlfraint). Mae cannoedd ar gannoedd o filoedd o wylwyr o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn tiwnio i mewn i wasanaethau teledu digidol S4C drwy loeren neu'r rhyngrwyd yn flynyddol. Mae gwasanaeth gwylio eto S4C "Clic" yn rhoi cyfle i bobol wylio rhaglenni ar-lein am 35 diwrnod ar ôl i'r rhaglenni gael eu darlledu'n wreiddiol. Mae gan S4C hefyd lawer o wefannau poblogaidd, gan gynnwys nifer ar gyfer plant, sy'n cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi. Mae 'na wasanaeth yn cael ei ddarparu ar y we hefyd sy'n arf pwerus i ychwanegu at werth rhaglenni ar gyfer y rheini sy'n dysgu Cymraeg.

Fel un sy'n darparu cynnwys clywededol gydag arian cyhoeddus, mae S4C yn cydnabod ei bod mewn safle allweddol i gefnogi defnydd mwy eang o'r Gymraeg ar y cyfryngau newydd. Ond mae hefyd yn cydnabod y sialens o ddatblygu strategaeth sy'n fwy addas yn y cyd-destun yma - un sy'n cynnig y cyfle gorau o hwyluso defnydd creadigol o'r iaith Gymraeg ar y cyfryngau newydd, ac un sydd â'i ddyhead yn gymesur â'i allu i gyrraedd y nod.

Felly, mae S4C wedi sefydlu Fforwm Cyfryngau Newydd dan gadeiryddiaeth aelod o'r Awdurdod. Mae'r Fforwm wedi cynhyrchu adroddiad fydd, cyn bo hir, yn cael ei drafod mewn ymgynghoriad eang. Mae ei brif argymhellion yn cynnwys:

- Penodi cyfarwyddwr digidol yn S4C.
- Dod i gytundeb gyda deiliaid hawlfraint a'r undebau i wella dosbarthiad deunydd newydd a deunydd archif ar-lein.
- Ymchwilio i ddarganfod sut all S4C wneud gwell defnydd o'i chynnwys ar gyfer dibenion addysg.
- Datblygu strategaeth comisiynu digidol.
- Newid *remit* statudol S4C i gynnwys cyfryngau eraill, heblaw teledu.

Mae S4C wedi cyhoeddi ei bwriad i ddatblygu S4C Lleol /S4C local - ffordd o rannu deunydd lleol a chymunedol ar draws Cymru, wedi ei seilio ar yr egwyddor o fod yn barod i greu partneriaeth gydag ystod eang o grwpiau addysgiadol, gwirfoddol a chymunedol gan fanteisio ar sgiliau'r papurau bro a radio lleol. Mae S4C hefyd yn fodlon trafod partneriaethau gyda darparwyr teledu lleol arfaethedig yng Nghymru a allai fod wedi ei seilio ar fynediad i gynnwys, rhannu gwerthiant hysbysebu a sgiliau ac adnoddau technegol.

Thema Allweddol 2 – be ddylai'r blaenoriaethau fod o bersbectif Cymreig wrth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno argymhellion ar gyfer ei Mesur Cyfathrebiadau.

Mae'r Mesur Cyrff Cyhoeddus yn cael ei drafod yn y Senedd ar hyn o bryd fydd, os bydd yn cael ei basio, yn dileu'r fformiwla cyllid statudol y mae S4C wedi ei derbyn er 1982. Heb ddiystyru gwerth y Cytundeb diweddar rhwng S4C, y BBC a'r DCMS, mae'r Mesur Cyfathrebiadau yn darparu cyfle i drafod ac ail-sefydlu cyllido statudol, wedi ei seilio ar fformiwla sy'n dderbyniol yn gyhoeddus sydd wedi ei hanelu'n glir i alluogi S4C i gyflawni ei *remit* statudol.

Darparu gwasanaeth teledu gyda'r mwyafrif o'r cynnwys yn yr iaith Gymraeg ydi *remit* presennol S4C. Fe ddylai'r Mesur Cyfathrebiadau roi cyfle i ddiweddaru'r *remit* yma i'w gwneud hi'n briodol ar gyfer yr oes aml-gyfryngol di-linear. Fe ddylai hyn gynnwys elfen ddigidol gryfach yn *remit* S4C gan roi'r hawl iddi i greu cynnwys digidol sy'n fwy nag atodiad i gynnwys teledu.

Mi fydd S4C hefyd yn ceisio llacio'r cyfyngiadau statudol sydd ar weithgareddau masnachol S4C sydd ddim yn cynnwys unrhyw ddefnydd o arian cyhoeddus.

Ar ôl i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 gael ei phasio, fe wnaeth S4C addasu ei Thelerau Masnach yn sgil adolygiad o God Ymarfer Ofcom er mwyn caniatáu i gynhyrchwyr cynnwys gadw perchnogaeth cynnwys a chael cyfle i gynhyrchu mwy o refeniw masnachol o'u catalogau. Yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y Mesur Cyfathrebiadau, mae S4C yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda chynhyrchwyr a deiliaid hawlfraint eraill gan ei bod hi'n ymddangos mai ychydig o ymelwa masnachol sy wedi bod yn yr hawliau eilradd a chynnwys sydd wedi cael ei ariannu a'i drwyddedu gan S4C yn ystod y saith mlynedd o weithio o dan y Telerau Masnach yma. Mae S4C yn awyddus i gynnal trafodaethau gyda'r sector gynhyrchu i weld a fyddai hi'n bosib i ddarganfod ffyrdd mwy creadigol o rannu ac ymelwa. Anfantais y Cod Ymarfer presennol a'r Telerau Masnach presennol sy'n deillio ohono ydi eu bod nhw'n cyfyngu gallu S4C i wneud yn fawr o ymelwa ar gynnwys sydd wedi ei gyllido'n gyfangwbl er budd y gwylwyr. Fe ddylai'r Mesur Cyfathrebiadau ymdrin â'r mater yma.

Thema Allweddol 3 – Y cyfleoedd ar gyfer modelau busnes cyfryngau newydd i gael eu sefydlu yng Nghymru.

Mae S4C wedi cyhoeddi ei bwriad i lansio Cronfa Ddigidol i fuddsoddi mewn cynnwys a datblygiad. Mi fydd manylion am gwmpas y gronfa a'r meini prawf ar gyfer sut fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn cael eu cyhoeddi ar ôl yr ymgynghoriad ar adroddiad y Fforwm Cyfryngau Newydd, fel sydd wedi ei nodi uchod. Y bwriad, brun bynnag, ydi rhyddhau £1 filiwn y flwyddyn o gronfeydd masnachol wrthgefn S4C am y pedair blynedd nesaf sy'n ychwanegol at yr arian sy wedi ei neilltuo i'r gwasanaeth statudol, er mwyn cefnogi ystod o brosiectau cyfryngau newydd. Fe fydd yna gyfleoedd amlwg yma i sefydlu cysylltiadau gyda mentrau sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, sy'n deillio o'r flaenoriaeth sydd wedi ei rhoi i gefnogi a datblygu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Er nad yn fodel busnes "cyfryngau newydd", mae'n werth cyfeirio yn fan hyn at gronfa cyd-gynhyrchu teledu newydd S4C. Mi fydd y gronfa yn cael ei gweithredu drwy un o is-gwmnïau masnachol S4C ar sail fasnachol ac a fydd yn werth £4 miliwn dros bedair blynedd. Mae'r cyllid yn dod o arian masnachol S4C ac mae'n ychwanegol at ei chyllid rhaglenni. Mi fydd y gronfa yn buddsoddi mewn:

- Cyd-gynyrchiadau i'w darlledu ar S4C.
- Cyd-gynyrchiadau ar gyfer S4C sy'n cael eu cyd-gyllido.
- Cynnyrch neu fformatau ar gyfer S4C sydd â photensial masnachol.
- Marchnata cynnwys S4C neu frandiau a chymeriadau cysylltiedig.

Bwriad y gronfa ydi creu elw a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi mewn cynnwys. Mi fydd yn denu cyllid ychwanegol o wahanol ffynonellau ar gyfer cynnwys ac fe fydd yn cymell cwmnïau cynhyrchu i fod yn fwy cystadleuol.

Er bod incwm hysbysebu S4C wedi lleihau'n sylweddol ar ôl colli rhaglenni Channel 4, mae braich fasnachol S4C yn ymchwilio i'r potensial o gael mwy o gyllid drwy ddatblygu perthynas gryfach gyda hysbysebwyr lleol ac o gyfleoedd masnachol ar-lein.

Thema Allweddol 4 – Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i weithredu argymhellion adroddiad Hargreaves a pha gamau eraill allai gael eu cymryd i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru yng nghyd-destun plwraliaeth ar yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

Fe wnaeth yr Athro Hargreaves sawl argymhelliad yn ei adroddiad yn ymwneud â rôl S4C i gyfrannu at strategaeth diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi y gallai S4C gymell cwmnïau i gydweithio'n rhyngwladol a hefyd i gymryd rhan mewn cronfa fuddsoddi ddigidol. Roedd y penderfyniad i greu'r ddwy gronfa newydd, Digidol a Chyd-gynhyrchu sy'n cael eu nodi uchod, yn ymateb uniongyrchol i adroddiad Hargreaves.

Mae'r adroddiad yn galw ar S4C, y BBC a Channel 4 i gynnal adolygiad blynyddol ar eu heffaith economaidd. Fe gomisiynodd S4C adroddiad gan DTZ / Uned Ymchwil Economaidd Cymru Prifysgol Caerdydd i'w heffaith economaidd rhwng 2007 a 2010. Fe ddangosodd fod S4C wedi cefnogi dros 2,100 o weithwyr llawn amser yn y diwydiannau creadigol a diwydiannau cysllltiedig yng Nghymru. Mae'r adroddiad llawn i'w weld ar: http://www.s4c.co.uk/abouts4c/corporate/c_econrep.shtml

Fe alwodd yr Athro Hargreaves hefyd am amserlen ar gyfer trafodaeth gyhoeddus rhwng S4C a Chynulliad Cenedlaethol Cymru; awgrymodd y dylai'r pwyllgor priodol gasglu tystiolaeth ac y dylai cyfarfodydd cyson gael eu cynnal rhwng y Prif Weithredwr a Bwrdd y Diwydiannau Creadigol. Mae S4C yn deall cymhlethdod trafodaeth am faterion sy'n mynd ar draws meysydd sydd wedi eu datganoli ac sydd heb eu datganoli; mae'n dymuno sicrhau bod ymwneud addas gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a chyrff sy wedi eu noddi gan Lywodraeth Cymru yn parhau. Y bwriad ydi gwneud y gorau o'r effaith ddiwylliannol, economaidd a ieithyddol allai ddigwydd o ganlyniad i'r darlledu statudol a gweithgareddau eraill y mae S4C yn atebol i'r Senedd amdanyn nhw. Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr S4C yn cyfarfod â swyddogion a gweinidogion Llywodraeth Cymru yn gyson. Mae cyfarfodydd deufisol yn cael eu cynnal rhwng swyddogion S4C a'r uned diwydiannau creadigol i drafod cydweithredu a meysydd materion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall. Gall posibiliadau eraill gael eu datblygu wrth i bartneriaethau newydd gael eu sefydlu. Mae S4C yn croesawu'r ffaith fod y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn dangos ddiddordeb cynyddol yn y cyfryngau ac eisiau cyfrannu'n llawn i ddealltwriaeth o'rmaterion hyn. Mae S4C, er enghraifft, yn edrych ymlaen at gyfrannu i'r astudiaeth fydd yn cael ei chynnal gan yr Adran Fusnes, Mentergarwch, Technoleg a Gwyddoniaeth i gyfraniad y BBC ac S4C i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a'r effaith botensial ar unrhyw newidiadau i'w trefniadau cyllid.

Mae Adroddiad Hargreaves yn galw ar y DCMS i gynnal adolygiad o S4C, fyddai'n golygu bod Awdurdod S4C yn gorfod sicrhau bod ei gweithgareddau yn cael yr effaith economaidd gorau posib yn gyson â'i hamcanion gwasanaeth cyhoeddus a diwylliannol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol eisoes wedi nodi y bydd adolygiad o gyllid a strategaeth S4C yn cael ei gynnal cyn diwedd y cyfnod sy'n ymwneud ag Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr y Llywodraeth. Mae S4C yn croesawu'r cyfle i drafod yn eang y pynciau dan sylw. Mae hefyd yn nodi'r cyfleoedd ar gyfer cynnwys y cyhoedd wrth ystyried materion cysylltiedig a fydd yn cael eu darparu, i ddechrau, drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cytundeb diweddar rhwng Awdurdod S4C, Ymddiriedolaeth y BBC a'r DCMS ac yna drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar delerau'r Cytundeb Gweithredol rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C, a fydd yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gan y ddau gorff cyn cael ei osod gan yr Ymddiriedolaeth a hynny cyn i gyllid o ffi'r drwydded fod ar gael ar gyfer S4C yn 2013. Mi fydd y Cytundeb yma'n para hyd 2017.

Fe alwodd yr Athro Hargreaves hefyd ar i Channel 4, y BBC ac S4C sicrhau bod digon o ddeunydd o gyfryngau rhyngweithiol yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae'n debyg y bydd trefn gomisiynu S4C ar gyfer cynnwys digidol yn dilyn Polisi Masnach Deg tebyg i'r un sy'n ymwneud â mathau eraill o gynnwys. Er nad oes cwota ar gyfer comisiynau wedi eu lleoli yng Nghymru, mae'n ymddangos y bydd hi'n bur debygol y bydd cynnwys sy'n adlewyrchu treftadaeth, diwylliant a bywydau pob dydd yng nghymunedau Cymru yn cael eu cynhyrchu yn bennaf gan gwmnïau wedi eu lleoli yng Nghymru.